



## **ADRODDIAD I:**

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir  
Ddinbych

**DYDDIAD: 15 Medi 2021**

**SWYDDOG ARWEINIOL A SEFYDLIAD:**

**SWYDDOG CYSWLLT A SEFYDLIAD:** Nicola Kneale, Cyngor Sir Ddinbych

**PWNC: Asesiad o Lesiant a Chynllun  
Llesiant**

---

---

### **1. DIBEN YR ADRODDIAD**

1.1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) am gynnydd yr Asesiad o Lesiant, a chychwyn drafftio llinell amser ar gyfer yr ymgynghoriad a'r cynllun.

### **2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Mae Asesiad o Lesiant statudol wrthi'n cael ei gynhyrchu, a fydd yn sail i gynllun Llesiant nesaf y BGC (y mae'n rhaid ei gyhoeddi erbyn Mai 2023 fan bellaf) a chynlluniau Llesiant ei sefydliadau cyfansoddol. Y bwriad yw y bydd drafft yn barod ym mis Tachwedd 2021, a fydd yn mynd drwy broses ymgynghori statudol (gweler y ddolen i Atodiad A y Canllawiau Statudol yn y tabl ar ddiwedd yr adroddiad hwn). Mae angen i'r BGC hefyd ystyried ei amserlen ar gyfer cynhyrchu ei Gynllun Llesiant, a'r dull a fydd yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu'r Cynllun hwnnw. Rhaid i'r Cynllun hwn roi ystyriaeth i amserlenni statudol ar gyfer ymgynghori ar y cynllun drafft (e.e. rhaid caniatáu 14 wythnos i ymgynghori gyda swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol). Ni fwriedir trafod datblygiad y Cynllun yn fanwl heddiw, dim ond enwebu Swyddog Arweiniol a dod â chynnig ger bron y cyfarfod nesaf.

### **3. ARGYMHELLION/ DEWISIADAU**

3.1 Bod y BGC yn nodi'r cynnydd a wnaed gyda'r Asesiad o Lesiant, ac yn cymeradwyo'r llinell amser ar gyfer ymgynghori.

3.2 Bod y BGC yn nodi'r llinell amser ddrafft ar gyfer cynhyrchu ei Gynllun Llesiant, ac yn enwebu Aelod Bwrdd arweiniol i gydweithio â swyddogion i lunio cynllun cynhyrchu.

### **4. GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 Mae'r Asesiad statudol o Lesiant yn cael ei gynhyrchu gan dîm traws-sefydliadol o ymchwilyr ymysg aelodau'r BGC, gan gynnwys Cyngorau Conwy a Sir Ddinbych, Cyfoeth Naturiol Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Darperir mewnbwn arall gan Brifysgol Glyndŵr a chyrff ymchwil cenedlaethol, gan gynnwys Data Cymru a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Rydym hefyd wrthi'n ymgysylltu â'n cymunedau, a bydd hyn yn cael ei ymgorffori i'r asesiad.

4.2 O'r canllawiau statudol ar gyfer BauGC (Atodiad A, paragraff 54): "Rhaid i bob bwrdd gyhoeddi ei asesiad o leiaf 12 mis cyn iddo gyhoeddi ei gynllun Llesiant lleol. Gan fod y Ddeddf yn nodi bod rhaid i'r cynllun Llesiant lleol gael ei gyhoeddi heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn ar ôl etholiad cyffredin, fel y diffinnir hynny yn adran 26 Deddf Llywodraeth Leol 1972, yn ymarferol

mae hyn yn golygu y byddai'r asesiad o lesiant lleol yn cael ei gyhoeddi o fewn y 12 mis cyn pob etholiad llywodraeth leol cyffredin."

- 4.3 Rhaid ymgynghori ar Asesiad drafft gyda'r rhai a amlinellir ym mharagraff 147 Atodiad A. Fodd bynnag, nid oes amserlen statudol ar gyfer ymgynghori ar yr Asesiad (paragraff 149), yn wahanol i'r ymgynghori ar y Cynllun ei hun (paragraffau 156 a 157).

## **5. YMGYNGHORI**

- 5.1 Mae'r cynllun cynhyrchu eisoes wedi'i rannu â'r BGC ac â Chyd-bwyllgor Craffu BGC Conwy a Sir Ddinbych.
- 5.2 Yn ystod y broses gynhyrchu, ymgysylltwyd â staff, Cynghorwyr, Cynghorwyr Tref a Sir, y boblogaeth gyffredinol, pobl ifanc ac unigolion â nodweddion a ddiogelir. Bydd eu hadborth yn cael ei gynnwys yn yr Asesiad o Lesiant.
- 5.3 Ymgynghorir ar gynnwys yr Asesiad drafft gyda'r ymgynghoreion statudol a amlinellwyd yn flaenorol ym mharagraff 147 Atodiad A. Er mwyn gallu deall helaethrwydd yr wybodaeth gymhleth sydd o fewn yr Asesiad o Lesiant, bydd cyflwyniad cryno o gasgliadau allweddol y dadansoddiad o gynnwys yr Asesiad yn llunio sail i'r ymgynghoriad. Y bwriad yw y bydd yr Asesiad drafft ar gael o fis Tachwedd 2021 ymlaen (bydd yr amserlen hon hefyd yn caniatáu cynhyrchu Cynlluniau Llesiant ar gyfer awdurdodau lleol).
- 5.4 Rhaid rhoi ystyriaeth i ddewis y BGC o amserlen a dull cynhyrchu ar gyfer cynhyrchu ei Gynllun Llesiant ei hun. Bydd swyddogion BGC yn helpu gyda'r gwaith hwn, gyda chefnogaeth yr aelod BGC arweiniol (i'w gadarnhau, gweler yr Argymhellion).

## **6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**

- 6.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â datblygu strategaeth ar gyfer y BGC, sef rôl ar gyfer y swyddogion sy'n cefnogi cynllunio busnes y BGC ac yn cynghori ar brosesau llywodraethu da. Felly gall swyddogion y BGC ymgymryd â'r tasgau cysylltiedig, ond bydd angen cydweithiwr ar lefel y Bwrdd hefyd i gydweithio â'r swyddogion er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i safbwyntiau'r Bwrdd a bod y Bwrdd yn rhan o'r gwaith.
- 6.2 Ymhellach ymlaen, wrth ddatblygu'r cynllun a nodi camau i'w cymryd i fodloni'r amcanion, bydd angen i Aelodau'r BGC ganfod y dulliau a'r adnoddau i'w gyflawni'n weithredol.

## **7. RISG**

- 7.1 Mae yna risg na fydd cynlluniau'r aelod-sefydliadau a chynllun y BGC yn cydweddu – canlyniad i'r ffaith bod terfynau amser statudol cynhyrchu cynlluniau llesiant ar gyfer awdurdodau lleol a BauGC 'allan o drefn'. Gallai hyn arwain at drafferth sicrhau nodau sefydliadol ar y cyd a chydweithio'n effeithiol. Dylid ystyried y rhyngddibyniaethau a'r risgiau hyn wrth i broses gynhyrchu'r Cynllun ddatblygu.

## **8. CYMHELLION A GOBLYGIADAU**

- 8.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## **9. RHESWM DROS YR ARGYMHELLION**

9.1 Gallu cynhyrchu Cynllun Llesiant cyraeddadwy a fydd yn gwella bywyd ar gyfer ein trigolion a chenedlaethau'r dyfodol.

PAPURAU CEFNDIR	LLEOLIAD	GWYBODAETH GWEFAN
<a href="https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/spsf-3-rol-gydweithredol-byrddau-gwasanaethau-cyhoeddus.pdf">https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/spsf-3-rol-gydweithredol-byrddau-gwasanaethau-cyhoeddus.pdf</a>		